# GORCHYMYN 20XX CYNGOR SIR Y FFLINT AR Y STRYD FAWR, TREFFYNNON A FFYRDD CYFAGOS (TRAFFIG UNFFORDD A GWAHARDD GYRRU)

Mae Cyngor Sir y Fflint yn bwriadu gwneud Gorchymyn dan Adrannau 1 (1) (d) (f) and 2 (1) (2) Deddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984, a'i effaith fydd:

1. Gwahardd pob cerbyd, rhag defnyddio'r darnau o ffyrdd a nodir yng Ngholofn 1 i Atodlen y Rhybudd hwn ac eithrio i'r cyfeiriad a nodir mewn perthynas â'r darnau o ffyrdd yng Ngholofn 2 i'r Atodlen honno.

2. Ni ddylai unrhyw un, ac eithrio ar gais, neu gyda chaniatâd Cwnstabl mewn iwnifform neu Swyddog y Farchnad, achosi neu ganiatáu i unrhyw gerbyd deithio ar hyd ffordd Tower Gardens, o'i chyffordd gyda'r Stryd Fawr am bellter o 60 metr i gyfeiriad y Gogledd Ddwyrain.

3. Ni ddylai unrhyw un, ac eithrio ar gais, neu gyda chaniatâd Cwnstabl mewn iwnifform achosi neu ganiatáu i unrhyw gerbyd fynd ar, neu adael y Stryd Fawr ar ei chyffordd gyda Ffordd yr Orsaf ger rhifau 17 a 21.

4. Bydd y gorchymyn arfaethedig os caiff ei wneud yn dirymu GORCHYMYN 2019 CYNGOR SIR Y FFLINT AR Y STRYD FAWR, TREFFYNNON A FYRDD CYFAGOS (TRAFFIG UNFFORDD A GWAHARDD GYRRU) yn ei gyfanrwydd.

**ATODLEN 1**

| **Colofn 1**<br>**Enw'r Ffordd** | **Colofn 2**<br>**Cyfeiriad a Ganiateir** |
|---|---|
| **Cross Street, Treffynnon –** o'i chyffordd gyda Ffordd Pen-y-Ball i'w chyffordd gyda'r Stryd Fawr | **De Orllewin i'r Gogledd Ddwyrain** |
| **Stryd Fawr, Treffynon –** O'i chyffordd â Cross Street, i'w chyffordd â'r A5026 | **Gogledd Orllewin i'r De Ddwyrain** |

Mae'n bosibl gweld copi o'r Hysbysiad, y Gorchymyn arfaethedig, ynghyd â chynlluniau'n dangos y darnau o ffyrdd y mae'r cynnig yn effeithio arnynt a datganiad o resymau'r Cyngor dros gynnig gwneud y Gorchymyn, yng Nghyngor Sir y Fflint yn Cysylltu, Hen Neuadd y Dref, Stryd Fawr, Treffynnon, CH8 7TD yn ystod oriau agor neu fe allwch eu gweld ar ein gwefan www.siryffint.gov.uk > Preswylwyr > Ffyrdd, Strydoedd a Theithio > Gorchmynion Rheoleiddio Traffig neu fe allwch wneud cais am gopi o'r dogfennau drwy e-bostio streetscene@flintshire.gov.uk neu drwy ffonio 01352701234.

Dylid anfon gwrthwynebiadau i'r Gorchymyn arfaethedig, yn ogystal â'r sail dros wrthwynebu, yn ysgrifenedig at yr unigolyn isod yn y cyfeiriad isod, (gan ddyfynnu cyfeirnod SS/JB/CRC/Treffynnon) neu trwy e-bostio Transportstrategyconsultation@flintshire.gov.uk erbyn dydd Gwener, 16 Awst 2024.

Katie Wilby,
Prif Swyddog (Strydwedd a Chludiant) Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug, Sir y Fflint.
CH7 6NR. Dyddiedig y 26 o Gorffennaf 2024

**DYDDIEDIG xx xxxxxx 20xx**

---

# GORCHYMYN 20xx

# CYNGOR SIR Y FFLINT

# AR Y STRYD FAWR, TREFFYNNON A FFYRDD CYFAGOS

# (TRAFFIG UNFFORDD A GWAHARDD GYRRU)

---


**Katie Wilby**

**Prif Swyddog (Strydwedd a Chludiant)**

**Cyngor Sir y Fflint**

**Neuadd y Sir**

**Yr Wyddgrug**

**Sir y Fflint**

**CH7 6NF**

**GORCHYMYN 20xx**
**CYNGOR SIR Y FFLINT**
**AR Y STRYD FAWR, TREFFYNNON A FFYRDD CYFAGOS**
**(TRAFFIG UNFFORDD A GWAHARDD GYRRU)**

Mae Cyngor Sir y Fflint wrth ddefnyddio’i bwerau dan adrannau 1 (1) (d) (f) a 2 (1) (2) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 fel y’i diwygiwyd (“Deddf 1984”) a phob pŵer arall sy’n galluogi, ac ar ôl ymgynghori â Phrif Swyddog yr Heddlu, yn unol â Rhan III Atodlen 9 o Ddeddf 1984, yn gwneud y Gorchymyn canlynol:-

1. Ac eithrio lle nodir yn wahanol, mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at Erthygl neu Atodlen â rhif yn gyfeiriad at yr Erthygl neu'r Atodlen sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

2. Ni ddylai unrhyw un, ac eithrio ar gais, neu gyda chaniatâd Cwnstabl yr Heddlu mewn Lifrai achosi neu ganiatáu gwahardd pob cerbyd, rhag defnyddio’r darnau o ffyrdd a nodir yng Ngholofn 1 i Atodlen y Rhybudd hwn ac eithrio i’r cyfeiriad a nodir mewn perthynas â’r darnau o ffyrdd yng Ngholofn 2 i’r Atodlen honno.

3. Ni ddylai unrhyw un, ac eithrio ar gais, neu gyda chaniatâd Cwnstabl yr Heddlu mewn Lifrai neu Swyddog Marchnadoedd, achosi neu ganiatáu i unrhyw gerbyd deithio ar hyd ffordd Tower Gardens, o’i chyffordd gyda’r Stryd Fawr am bellter o 60 metr i gyfeiriad y Gogledd Ddwyrain.

4. Ni ddylai unrhyw un, ac eithrio ar gais, neu gyda chaniatâd Cwnstabl mewn iwnifform achosi neu ganiatáu i unrhyw gerbyd fynd ar, neu adael y Stryd Fawr ar ei chyffordd gyda Ffordd yr Orsaf ger rhifau 17 a 21.

5. Ni fydd unrhyw beth yn Erthygl 2 y Rhybudd hwn, yn cael ei weithredu i atal unrhyw un rhag achosi cerbyd i deithio ar hyd y ffordd a nodir, os yw'r cerbyd hwnnw'n cael ei ddefnyddio at bwrpasau'r frigâd dân, gwasanaeth ambiwlans neu’r heddlu.

6. Mae Gorchymyn 2019 Cyngor Sir Y Fflint, Ar Y Stryd Fawr, Treffynnon A Ffyrdd Cyfagos (Traffif Unffordd a Gwahardd Gyrru) wedi'i ddirymu.

7. Bydd gwaharddiadau a chyfyngiadau'r Gorchymyn yn ychwanegol at, ac nid yn rhanddirymiad i unrhyw gyfyngiad neu ofyniad a nodir mewn unrhyw reoliad a wnaed neu sy'n cael effaith, fel pe baent wedi eu gwneud dan Ddeddf 1984 neu unrhyw ddeddfiad arall.

8. Bydd Deddf Dehongli 1978 yn berthnasol ar gyfer dehongli'r Gorchymyn hwn fel y mae'n berthnasol i ddehongli Deddf Seneddol.

9. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar xx xxxxxx 20xx ac fe'i gelwir yn Gorchymyn 20xx Cyngor Sir Y Fflint, Ar Y Stryd Fawr, Treffynnon A Ffyrdd Cyfagos (Traffif Unffordd a Gwahardd Gyrru)

**ATODLEN 1**

| **Colofn 1**<br>**<u>Enw'r Ffordd</u>** | **Colofn 2**<br>**<u>Cyfeiriad a Ganiateir</u>** |
|---|---|
| **Cross Street, Treffynnon –** o'i chyffordd gyda Stryd Pen-y-Ball i'w chyffordd gyda'r Stryd Fawr | **De Orllewin i'r Gogledd Ddwyrain** |
| **Stryd Fawr, Treffynon –** O'i chyffordd â Cross Street, i'w chyffordd â'r A5026 | **Gogledd Orllewin i'r De Ddwyrain** |

**Gosodwyd SÊL GYFFREDIN** )
**CYNGOR SIR Y FFLINT** )
at hyn )
ar yr diwrnod  hwn o fis Hydref )
Ym mhresenoldeb:- )
**Y CADEIRYDD**

**UWCH GYFREITHIWR**

**RHEOLWR Y GWASANAETHAU CYFREITHIOL**

**PRIF SWYDDOG (LLYWODRAETHU)**

**GORCHYMYN**
**Y STRYD FAWR, TREFFYNNON A FFYRDD CYFAGOS**
**(TRAFFIG UNFFORDD A GWAHARDD GYRRU) CYNGOR SIR Y FFLINT 20xx**

**DATGANIAD O'R RHESYMAU DROS GYNNIG GWNEUD Y GORCHYMYN**

Mae ymgynghoriad wedi'i gynnal ar Adolygiad o Farchnad Treffynnon, i rannu cynnig a fyddai'n adleoli Marchnad Treffynnon i Erddi'r Tŵr ac agor y Stryd Fawr i gerbydau bob dydd Iau, i geisio helpu i roi hwb i fasnach leol.

Cafodd barn preswylwyr, busnesau a masnachwyr Marchnad Treffynnon eu hystyried ac roedd y canlyniadau'n cadarnhau bod y bwriad i adleoli Marchnad Treffynnon o'r Stryd Fawr i Erddi'r Tŵr bob dydd Iau wedi cael ymateb cadarnhaol.

Felly, caiff y Gorchymyn Rheoleiddio Traffig a wnaed yn 2019 ei ddiddymu a bydd yn adlewyrchu'r newidiadau uchod, a fydd yn caniatáu i gerbydau fynd ar hyd y Stryd Fawr ar ddyddiau Iau pan fo marchnad stryd yn cael ei chynnal yng Ngerddi'r Tŵr a bydd yn caniatáu i gerbydau fynd i Erddi'r Tŵr, gyda chaniatâd Cwnstabl mewn iwnifform neu Swyddog Marchnad.

Dyddiedig y 26eg diwrnod o fis Gorffennaf 2024



Katie Wilby,
Prif Swyddog (Gwasanaethau Stryd a Thrafnidiaeth),
Neuadd y Sir,
Yr Wyddgrug,
Sir y Fflint.
CH7 6NR.